Cefnogwyd gan
Supported by
Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

Funded by UK Government
Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU

# Gwybodaeth am Fwrsariaeth Lansio Busnes Sir Gâr

## Y Gronfa

- Mae Bwrsariaeth Lansio Busnes Sir Gâr yn daliad wedi'i ariannu'n llawn o hyd at £1,000 sydd ar gael i unrhyw unigolion dros 18 oed yn Sir Gaerfyrddin sydd â diddordeb mewn masnachu prawf ar gyfer syniad busnes, a heb fawr ddim profiad busnes blaenorol, neu ddim o gwbl.
- Rhaid i ymgeiswyr fynychu Gweithdy Dechrau Busnes a drefnir gan Gyngor Sir Caerfyrddin, a fydd yn eu cynorthwyo i lunio cynllun busnes addas a rhagolwg llif arian. Rhaid mynychu'r sesiwn hon cyn cyflwyno'r cais. Rhaid i'r rheiny sy'n llwyddo i gael y fwrsariaeth hefyd gytuno i fynychu dwy sesiwn 1:1 ddilynol ar ôl i'r fwrsariaeth gael ei thalu.
- Mae ymgeiswyr yn cael eu hasesu'n rheolaidd fesul achos ac mae'r fwrsariaeth yn cael ei dyfarnu gan banel o'r Tîm Datblygu Economaidd.

## Proses Gwneud Cais

Gallwch lawrlwytho'r ffurflen gais oddi ar y wefan:
https://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/busnes/ymgysylltiad-busnes/bwrsariaeth-lansio-busnes-sir-gar/

Ar ôl ei llenwi, anfonwch y ffurflen i: businessengagement@sirgar.gov.uk

Yna, bydd aelod o'r tîm Ymgysylltu â Busnesau yn cysylltu â chi i drafod eich syniad busnes a'ch gwariant arfaethedig yn fanwl ac yn dechrau eich cynorthwyo â'ch cais.

Mae'n ofynnol i ymgeiswyr lenwi ffurflen gais, gan roi dadansoddiad o'r gwariant arfaethedig ynghyd ag enw'r cyflenwr/cyflenwyr a'r gwerthoedd unigol. Rydym yn eich annog i ddefnyddio cyflenwyr yn Sir Gâr lle bynnag y bo modd.

## Meini Prawf Cymhwysedd

Mae Bwrsariaeth Lansio Busnes Sir Gâr wedi'i chynllunio i gynorthwyo unigolion i roi cynnig ar brofi eu syniad busnes ac, felly, rhaid i ymgeiswyr fodloni'r meini prawf canlynol:

1. Ddim yn barod i ddechrau gweithgareddau masnachu prawf heb gymorth ariannol
2. Dim profiad blaenorol o hunangyflogaeth/masnachu prawf NEU rywfaint o brofiad ond mae angen cymorth ariannol arnynt i ddatblygu gweithgareddau masnachu prawf ymhellach
3. Ddim yn cynnal gweithgareddau masnachu prawf yn ystod y broses ymgeisio
4. Ddim yn hunangyflogedig ar hyn o bryd – mae unigolion ag unrhyw statws cyflogaeth arall yn gymwys i wneud cais, gan gynnwys gweithwyr cyflogedig amser llawn

# Bwrsariaeth Lansio Busnes Sir Gâr

## Telerau ac Amodau

1. Mae Bwrsariaeth Lansio Busnes Sir Gâr yn daliad wedi'i ariannu'n llawn o hyd at £1,000 sydd ar gael i unrhyw unigolion dros 18 oed yn Sir Gaerfyrddin sydd â diddordeb mewn masnachu prawf ar gyfer syniad busnes.

2. Rhaid cyflwyno cynlluniau busnes a rhagolygon ariannol, gan gynnwys rhagolwg llif arian 12 mis, ynghyd â ffurflen gais wedi'i chwblhau. Rhaid cyflwyno'r rhain ar neu cyn y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau, sef 30 Medi 2025. Nid ystyrir unrhyw geisiadau sy'n dod i law ar ôl y dyddiad hwn.

3. Gall y gronfa gau cyn 30 Medi 2025 os bydd wedi'i hymrwymo'n llawn.

4. Ar ôl derbyn eich cais, byddwn yn eich gwahodd i fynychu un o'r Gweithdai Dechrau Busnes rheolaidd. Byddwn yn ceisio ystyried eich amgylchiadau gymaint â phosibl, fodd bynnag, nodwch na fydd eich cais yn cael ei brosesu nes y byddwch wedi cwblhau gweithdy.

5. Bydd cynnig ariannol y Fwrsariaeth Lansio Busnes yn ddarostyngedig i’r amodau canlynol: bydd 100% o'r dyfarniad yn cael ei ryddhau ymlaen llaw, a bydd yn rhaid darparu tystiolaeth o'r gwariant, gan gynnwys derbynebau a chyfriflenni banc cyfatebol, o fewn 2 fis i'r taliad.

6. Rhaid darparu tystiolaeth o weithgareddau masnachu prawf o fewn 6 mis i ddyddiad dyfarnu'r Fwrsariaeth, neu erbyn 27 Chwefror 2026 (pa un bynnag sydd gyntaf). Gellir gwneud cais am estyniad i'r cyfnod hwn gydag esboniad rhesymol a phenderfynir ar achosion o'r fath yn ôl disgresiwn y Tîm Datblygu Economaidd, ond ni fydd yn hwyrach na 27 Chwefror 2026.

7. **Rhaid** i ymgeiswyr llwyddiannus ddefnyddio cymorth mentora busnes 1:1 a drefnir gan Gyngor Sir Caerfyrddin. Rhaid mynychu o leiaf ddwy sesiwn.

8. Mae'r trefnwyr yn cadw'r hawl i ganslo neu newid dyddiadau'r cyllid am unrhyw reswm neu i wneud newidiadau i'r ffordd y mae'r broses gyllido yn cael ei chynnal.

# Gwariant

Bydd y dyfarniad ariannol yn berthnasol i wariant cyfalaf a/neu wariant refeniw a gynhwysir yn y rhestr ganlynol:

**Gwariant Cyfalaf:**

- Prynu offer newydd neu ail-law (peiriannau, offer arbenigol, ac ati)
- Caledwedd TG a thelathrebu os yw'n uniongyrchol gysylltiedig â chyflawni'r prosiect
- Prynu a gosod offer at ddibenion creu lle masnachu, e.e. cysgodfannau, gasebo, bwrdd masnachu, ac ati
- Nwyddau traul ar gyfer creu cynhyrchion
- Stoc

**Gwariant refeniw arbenigol:**

- Hyfforddiant arbenigol/technegol (nid yn achrededig o reidrwydd)
- Ymgynghorwyr arbenigol (wedi'u hasesu fesul achos)
- Ardystiad Sicrhau Ansawdd, e.e. ardystiad hylendid bwyd (wedi'i asesu fesul achos)
- Ardystiad Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus neu aelodaeth y Ffederasiwn Masnachwyr Marchnad Cenedlaethol (taliad blynyddol untro yn unig)
- Datblygu gwefan ddwyieithog, datblygu e-fasnachu a phrynu meddalwedd

**Mae gwariant anghymwys yn cynnwys y canlynol:**

- Gwariant refeniw cyffredinol megis costau staff neu unrhyw drethi eraill, hurbrynu/prydlesu
- Ffioedd a chostau hapddigwyddiadau a ymrwymwyd neu a wariwyd cyn i'r fwrsariaeth gael ei chynnig a'i derbyn
- Costau cyfalaf gweithio megis rhent, ardrethi, gweinyddu
- Costau gwaith a wneir ar eiddo sy'n ofyniad statudol o dan y gyfraith, gan gynnwys caniatâd cynllunio
- Eitemau i'w defnyddio mewn arferion cosmetig neu feddygol mewnwthiol, fel offer Botox

Ni ddylid gwario unrhyw arian cyn i'r fwrsariaeth gael ei chymeradwyo gan na ellir rhoi bwrsariaeth yn ôl-weithredol. Nid yw eitemau a brynir ag arian parod yn gymwys.

# **Sectorau Anghymwys**

Ni fydd ceisiadau sy'n cynnwys syniad busnes sy'n ymwneud ag unrhyw un o'r isod yn cael eu hystyried:

- Pwrpasau pleidiol-wleidyddol
- Hyrwyddo safbwyntiau seciwlar, crefyddol neu wleidyddol penodol
- Hapchwarae
- Pornograffi
- Cynnig gwasanaethau rhywiol
- Unrhyw fath o weithgaredd anghyfreithlon; neu
- Unrhyw fath o weithgaredd a allai, ym marn y Cyngor, ddwyn anfri ar y Cyngor, sy'n cynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i weithdrefnau, cynhyrchion a thriniaethau mewnwthiol a heb eu rheoleiddio, modelu noeth neu hanner-noeth, canolfannau gamblo, gwasanaethau gwely haul, therapïau amgen, cynhyrchion a meddyginiaethau, aciwbigo, siopau fepio, gwerthwyr tybaco, dylanwadu ar y cyfryngau cymdeithasol, cwnsela, hyfforddi sgiliau bywyd, lleoedd tatŵs, adeiladu mentrus, triniaethau meddygol cyflenwol, cynhyrchion cosmetig, gweithdrefnau esthetig, cynhyrchion olew CBD a chryptoarian.

Anfonwch unrhyw ymholiadau i'r Mewnflwch Ymgysylltu â Busnesau:

BusinessEngagement@sirgar.gov.uk